**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 6.26 yn lle Mai 26**

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:968: Presennol:** Bedwyr Fychan (Cadeirydd), Huw Williams, Gareth Wyn Jones, Aeron Pughe, Glyn Jones, Gareth Owen, Gwenfair Rhys-Davies William Owen Gwen Lloyd Sandra Evans (Clerc)

**19:969: Ymddiheuriadau:** Iwan Pughe Jones, Gareth Owen, Rhodri Wigley Dafydd Evans Aled Griffiths

**19:970: Materion Personol:** Llongyfarchiadau i Elwyn Vaughan ar ddod yn Aelod o'r Senedd

**19:971: Datganiadau o ddiddordeb**:

**19:972: Cyflwyno a derbyn cofnodion Mai 26**.

Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn gan Gwenfair Rhys-Davies ac fe'i heiliwyd gan Huw Williams.

**19:973: Materion yn codi o'r cofnodion:** Mae'r wefan erbyn hyn yn fyw ac yn cael ei chynnal gan ddarparwr newydd sef HG Web Designs. Mynegwyd diolch i Hannah am ddarparu'r gwasanaeth. Anfonir dolen y wefan Newydd eto i'r cynghorwyr.

**19:974: Adroddiad y Clerc:** Mae Cyngor Sir Powys wedi cydnabod y materion a adroddwyd.

**19:975: Cynllunio: -** Cyfeirnod: P/26/0272/FUL - Cynnig: Erection of a replacement wind turbine (50m hub height, 76m blade tip height) in-place of existing turbine with all associated infrastructure and works - Land at Aberffrydlan, Llanwrin, Machynlleth, SY20 8QQ. Ni fynegwyd gwrthwynebiad

**19:976: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Diweddariad ariannol diwedd blwyddyn. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r gwariant a ragdybiwyd yn agos iawn ar gyfer y flwyddyn gyda gwariant o £450.00 yn fwy yn unig. Anfonir y cyfrifon i'r archwilydd mewnol yn unol â'r drefn arferol.

- H G Web Designs £560.00 (Dylunio gwefan 4 tudalen - £280.00 Gwesteiwr blynyddol - £180.00 Diweddaru a chynnal blynyddol - £100.00) Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Gwenfair Rhys-Davies ac fe'i heiliwyd gan Glyn Jones.

- Cyflog y clerc (mis 1) Ebrill Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Aeron Pughe ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

- Derbyniwyd cyfraniad £558.00 gan grŵp diffibs blaenorol Abercegir a'r ardal gyda diolch yn dilyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y diffib i CC Glantwymyn

**19:977:** Cyfraniad Eisteddfod Meirion Maldwyn 2007 – Mynegodd y Cyngor yn unfrydol ei gefnogaeth i'r eisteddfod gan ystyried ei bod yn fraint cael yr eisteddfod y n yr ardal. Trafodwyd sut y gallai'r Cyngor gyfrannu gan gynwys rhoi i'r gronfa leol, noddi cystadlaethau – a fyddai'n cefnogi'r gronfa leol yn ei thro a chefnogi gweithgareddau lleol i godi pres. Penderfynwyd gohirio'r union ddull i gyfrannu am y tro.

**19:978: Targedau'r Cyngor 2026/27** Mae'r hyn y mae'r Cyngor yn gobeithio ei chyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf er budd y gymuned yn ychwanegol at ei ddyletswyddau arferol yn cynnwys:

Diogelwch cerddwyr o Gemaes i Glantwymyn gan fod y ffordd mor brysur– cysylltir â Chefnffyrdd i fynegi pryderon am ddiogelwch, hefyd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Meirion Maldwyn 2007 am y bwriad o ran diogelwch a Chyngor Sir Powys am y diogelwch yn gyffredinol ac yn benodol wrth ystyried prysurdeb cynyddol adeg yr eisteddfod.

**19:979:** Asesiad Risg wedi'i adolygu Cynigiwyd y dylid derbyn hwn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan William Owen.

**19:980: Adroddiadau'r Cynghorwyr** – Dim byd newydd i'w hadrodd

**19:981: Ffyrdd a Phontydd:**

- twll enfawr ar y ffordd Comins wrth droi am Ddarowen

- carreg ar ei chyllyll wrth ochr y ffordd dan Gwernstablau

- culvert wedi'i flocio Dan Goed-ddol – Cyngor Sir Powys

- mynegwyd diolch Gyngor Sir Powys am dorri'r gwair wrth Top y Grofft a Ffriddgate

Ffordd wedi rhoi gan fod culvert wedi'i flocio a thorri'r tarmac ar y ffordd i Gwmffrydlan dan y Cilgwyn

Tyllau yn ffordd Llanwrin. Mynegwyd pryderon am gyflymder ceir ar y ffordd yn gyffredinol o Top y Grofft hyd at Ffriddgate er gwaethaf yr arwyddion 20 mya. Mae'r ffordd hefyd yn dirywio o ganlyniad i'r traffig cynyddol yn dilyn codi'r bont newydd a'r sat nav dargyfeirio traffig

Twll yn y ffordd wrth droad Abergwydol

Cais am fwy o lefydd parcio yng ngorsaf drenau Machynlleth. Cysylltir â Thrafnidiaeth Cymru.

**19:982: Unrhyw fater arall –**

- Mainc wrth Ysgol Glantwymyn
- Uned stroc Aberystwyth - Mae ymgynghoriadau ar waith. Cysylltir ag Elwyn Vaughan
- Ffordd y fet – gofynnir i Elwyn Vaughan am fanylion pellach i symud y mater yn ei flaen.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20yh

Cynhelir y cyfarfod nesaf

**Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 11.6.26**

Derbyniwyd cyfraniad o £4,371.94 gan EDF yn gyfraniad hanner blwyddyn

Eisteddfod Meirion Maldwyn 2027 – Cais am arian. Penderfynwyd cyfrannu swm o £5.000 ar gyfer noddi Gwobr Daniel Owen. Bydd hyn yn helpu'r gronfa leol i gyrraedd ei tharged.

Blychau halen - Cysylltir ag Iwan Pughe Jones i drafod eu dosbarthu a Dafydd Evans i drefnu rhannu'r meinciau.